# Tanau gwyllt

## Cam 1: Nodi'r angen am ddysgu

| Cyd-destun dilys ar gyfer dysgu | |
|---|---|
| **Cwestiwn mawr / mater byd-eang / syniad mawr:**<br>Mae tanau gwyllt yn dod yn fwy dwys ac yn digwydd yn amlach, gan ddinistrio cymunedau ac ecosystemau. | **Pam mae'n bwysig i'n pobl ifanc ddysgu hyn:**<br>• Yn ddiweddar, mae tymhorau tanau gwyllt wedi torri record ledled y byd o Awstralia i'r Arctig i Ogledd a De America.<br>• Mae newid yn yr hinsawdd a newid defnydd tir yn gwaethygu tanau gwyllt.<br>• Gyda thymheredd byd-eang ar gynnydd, mae'r angen i leihau'r risg o danau gwyllt yn hollbwysig.<br>• Gall tanau gwyllt fod yn ddinistriol i bobl, bioamrywiaeth ac ecosystemau.<br>• Mae tanau gwyllt yn gwaethygu newid yn yr hinsawdd, gan gyfrannu nwyon tŷ gwydr sylweddol i'r atmosffer.<br>• Yng Nghymru, mae angen adnoddau sylweddol o bwrs y wlad i ddiffodd a rheoli llosgi. |
| **Creu ystyr** | |
| **Dealltwriaeth:**<br>Dylai'r dysgwyr ddod i ddeall y canlynol:<br>• Mae tân yn ffenomen naturiol.<br>• Mae rhai ecosystemau, planhigion ac anifeiliaid yn elwa o danau gwyllt cyfnodol, ar ôl esblygu i wrthsefyll a hyd yn oed i ddibynnu arno.<br>• Defnyddir y term tanau gwyllt i ddisgrifio tanau sydd heb eu cynllunio mewn ardaloedd cefn gwlad, gan gynnwys tanau coedwig, tanau glaswelltir, tanau llwyn, tanau prysgwydd, ac unrhyw dân llystyfiant arall.<br>• Mae tanau gwyllt yn hynod beryglus i fywyd gwyllt, planhigion, eiddo a bywyd dynol.<br>• Mae tanau gwyllt yn digwydd yng Nghymru a ledled y byd. Gall tanau gwyllt gael eu hachosi'n fwriadol neu'n ddamweiniol.<br>• Mae cynnau tân yn fwriadol yng nghefn gwlad heb gynllunio a heb ganiatâd ymlaen llaw yn anghyfreithlon ac yn anghyfrifol.<br>• Mae llosgi dan reolaeth yn dechneg rheoli tir a ganiateir ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig. | **Cysyniadau sylfaenol:**<br>Bydd dealltwriaeth y dysgwyr yn seiliedig ar y canlynol:<br>• Cyfrifoldeb personol<br>• Ffenomena naturiol<br>• Iechyd<br>• Diogelwch<br>• Cydgysylltiad<br>• Newid yn yr hinsawdd<br>• Achos ac effaith<br>• Rheoli tir<br>• Troseddoldeb<br>• Llosgi bwriadol |

## Cam 2: Pennu cynnydd

| Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol | | |
|---|---|---|
| **Mae'r dysgwyr eisoes yn gwybod y canlynol:** | **Mae'r dysgwyr eisoes yn gallu gwneud y canlynol:** | **Mae'r dysgwyr eisoes yn deall y canlynol:** |

| Dibenion dysgu | Dysgu trosglwyddadwy |
|---|---|
| **Gall y dysgwyr ddod yn fwyfwy effeithiol drwy:**<br>• Adeiladu corff o wybodaeth a meddu ar y sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno mewn gwahanol gyd-destunau.<br>• Meddwl yn greadigol i ail-fframio a datrys problemau.<br>• Deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu.<br>• Gwneud penderfyniadau pwyllog am ffordd o fyw a rheoli risg. | **Gallai'r dysgwyr ddefnyddio beth maen nhw wedi'i ddysgu mewn cyd-destunau eraill drwy:** |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Eich cefnogi i gynllunio a dylunio'r cwricwlwm

| Caffael gwybodaeth a sgiliau | |
|---|---|
| **Dylai'r dysgwyr ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth am y canlynol:**<br>• Beth yw tanau gwyllt.<br>• Mae newid yn yr hinsawdd yn cynyddu amlder a dwyster tanau gwyllt.<br>• Er y gall tanau gwyllt fod yn ddinistriol, gallant fod â rhai buddion.<br>• Mae tanau gwyllt yn cael effeithiau negyddol ar iechyd pobl.<br>• Gall colli llystyfiant oherwydd tanau gwyllt gynyddu'r perygl o lifogydd a thirlithriadau.<br>• Gall tanau gwyllt arwain at lygredd aer, pridd a dŵr.<br>• Sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel os bydd tanau gwyllt. | **FfLlRh / FfCD / MDaPh:** |

## Cwestiynau hanfodol

**Dylai'r myfyrwyr ystyried ac ailystyried y canlynol:**

**Cwestiynau ar lefel pwnc:**

- Pam y mae tanau gwyllt yn digwydd?
- Beth yw effeithiau tanau gwyllt?

**Cwestiynau ar lefel uned:**

- Sut y mae tanau gwyllt naturiol yn cychwyn?
- Sut y mae tanau gwyllt annaturiol yn cychwyn?
- Pa effaith y mae newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar danau gwyllt, ac i'r gwrthwyneb?
- Sut y mae tanau gwyllt yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol?
- Sut y mae tanau gwyllt yn effeithio ar bobl?
- Sut y mae tanau gwyllt yn cael eu rheoli a'u diffodd?
- Beth yw ein cyfrifoldebau o ran atal tanau gwyllt a chadw ein hunain yn ddiogel rhag niwed?

## Cam 3: Dangos beth a ddysgwyd

| Portffolio'r dysgwr | Nodau cynnydd | Tystiolaeth o ddysgu |
|---|---|---|
| **Gallai'r dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth drwy...**<br>• Archwilio sut y gall tanau gwyllt fod yn rym er da neu er drwg.<br>• Archwilio'r rhesymau pam y mae rhai pobl yn cychwyn tanau gwyllt yn fwriadol.<br>• Ystyried eu safbwynt personol ar sut y mae cymdeithas yn delio â chynnau tanau gwyllt.<br>• Disgrifio'r rôl y mae tanau gwyllt yn ei chwarae mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd.<br>• Trafod a chymharu sut mae tanau gwyllt yn effeithio ar Gymru a'r byd ehangach.<br>• Cyflwyno gwybodaeth am effeithiau tanau gwyllt.<br>• Ymchwilio i'r defnydd hanesyddol o dân.<br>• Ymchwilio i'r ymatebion amrywiol i danau gwyllt ledled y byd. | **Dylai'r dysgwyr wneud cynnydd yn y canlynol:**<br>• Eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr.<br>• Ehangder a dyfnder eu gwybodaeth.<br>• Eu dealltwriaeth o syniadau'r MDaPh.<br>• Soffistigeiddrwydd eu sgiliau.<br>• Eu gallu i drosglwyddo dealltwriaeth i gyd-destunau newydd. | **Beth fyddech chi o bosib yn ei weld / ei glywed / ei ddarllen sy'n dangos cynnydd?** |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Eich cefnogi i gynllunio a dylunio'r cwricwlwm

## Cam 4: Cynllun dysgu

<table>
<tr><th>Trosolwg o'r gweithgareddau dysgu (I'w bennu gan yr addysgwr)</th><th>Ffocws dysgu (Caffael / Creu Ystyr / Trosglwyddo)</th><th>Cynnydd yn y dyfodol (Sut ddylai'r dysgwyr gael eu datblygu nesaf?)</th></tr>
<tr><td>Mae'r adnoddau hyn, eu gwybodaeth ategol a llawer o gemau a gweithgareddau eraill ar gael ar ein tudalen we addysg 'Tanau Gwyllt'.<br>• Nodyn gwybodaeth – Tân<br>• Nodyn gwybodaeth – Tanau gwyllt<br>• Cynllun gweithgaredd – Tanio'r dychymyg<br>• Cynllun gweithgaredd – ABC tanau gwyllt<br>• Cynllun gweithgaredd – Effeithiau tanau gwyllt<br>• Cynllun gweithgaredd – Cynllun cilio rhag tanau gwyllt<br>• Cynllun gweithgaredd – Dihangfa o danau gwyllt<br>• Nodyn gwybodaeth – Ymchwilio i achosion tanau gwyllt<br>• Cynllun gweithgaredd – Taclo'r taniwr<br><br>Neu:<br>• Dysgwch sut i gynnau, rheoli a diffodd tân yn ddiogel gyda'n hystod o adnoddau am danau gwersyll ac offer.<br>• Ymchwiliwch i darddiad tân.<br>• Cwblhewch astudiaeth achos o ddigwyddiad tanau gwyllt lleol, cenedlaethol neu fyd-eang.<br>• Ewch ar ymweliad astudio maes (pan fo'n ddiogel gwneud hynny) i weld ôl-effeithiau tanau gwyllt.<br>• Cymharwch reolaeth tanau gwyllt lleol a byd-eang.<br>• Archwiliwch atebion tanau gwyllt sy'n seiliedig ar natur.</td><td>Caffael sgiliau:<br>• Ymchwil<br>• Arsylwi<br>• Cyfathrebu<br>• Casglu data<br>• Cymharu<br>• Meddwl beirniadol<br>• Gwerthuso<br><br>Gwybodaeth am y canlynol:<br>• Y triongl tân<br>• Ecosystemau<br>• Defnydd tir<br>• Rheoli tir<br>• Achos ac effaith<br>• Y gwasanaethau brys<br>• Addasu<br><br>Cydblethu'r dysgu:<br>• Deall effeithiau tymor byr, canolig a hir tanau gwyllt.<br>• Dylanwadu ar eraill i werthfawrogi a gofalu am natur.<br>• Defnyddio gwybodaeth i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.<br>• Bod ag empathi tuag at eraill.<br><br>Trosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth:<br>• Trosedd amgylcheddol<br>• Trychineb naturiol<br>• Amaethyddiaeth<br>• Llifogydd<br>• Datgoedwigo<br>• Cynefin<br>• Defnyddio adnoddau naturiol<br>• Cynaliadwyedd</td><td>Mae angen i'r dysgwyr ehangu eu gwybodaeth am y canlynol:<br><br><br>Mae angen i'r dysgwyr fod yn fwy medrus yn y canlynol:</td></tr>
</table>

## I gynorthwyo dysgu pellach am danau gwyllt:

- Gofynnwch i'r gwasanaethau brys lleol ddod i drafod achosion a chanlyniadau tanau gwyllt, a sut maen nhw'n gweithio i leihau'r risg.
- Chwiliwch am gyfleoedd rheoli tir lleol yn wirfoddol i helpu i leihau a rheoli llwyth tanwydd posibl y llystyfiant.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiol.cymru.gov.uk,

**0300 065 3000**